Polisi a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig a addysgir)

1. Polisi

1.1 Disgwylir i chi gyflwyno pob asesiad erbyn y dyddiadau cau a gyhoeddwyd a disgwylir i chi hefyd fod yn bresennol ym mhob digwyddiad asesu yn unol â'r amserlen. Os na chaiff asesiadau eu cwblhau ar amser, bydd y gosb am gyflwyno'n hwyr / diffyg presenoldeb / diffyg cyflwyno yn berthnasol.

1.2 Disgwylir i chi allu ymdopi â llawer o ddigwyddiadau bywyd ochr yn ochr â'ch astudiaethau, rheoli eich llwyth gwaith yn iawn, a disgwyl lefel o bwysau tuag adeg asesiadau a allai arwain at deimladau o straen a gorbryder. Os ydych yn ddigon da, hynny yw yn teimlo'n iach ac yn gweithio'n effeithiol, dylech wneud pob asesiad ac ni fydd angen i chi gyflwyno datganiad o amgylchiadau esgusodol.

1.3 Chi sy'n gyfrifol am reoli eich amgylchiadau eich hun ac am hysbysu'r Brifysgol am unrhyw faterion y credwch sy'n effeithio ar eich astudiaethau o fewn cyfnod rhesymol. Mae llawer o adnoddau a gwasanaethau cymorth yn cael eu cynnig gan y Brifysgol i'ch helpu i gynllunio ac i ddelio â phwysau asesiad.

1.4 Os byddwch yn wynebu amgylchiadau difrifol ac eithriadol yn y cyfnod yn union cyn, neu ar adeg asesiad, dylech gyflwyno datganiad o amgylchiadau esgusodol i'ch ysgol i'w ystyried gan y Grŵp Amgylchiadau Esgusodol. Bydd y Grŵp Amgylchiadau Esgusodol yn penderfynu a yw'r amgylchiadau a ddatganwyd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer amgylchiadau esgusodol (gweler paragraff 1.5 isod) a, lle bo'n briodol, yn penderfynu pa fesur unioni fydd yn cael ei gymhwyso.

1.5 Mae Amgylchiadau esgusodol yn:

- Ddifrifol ac eithriadol; ac
- Anrhagweladwy neu anochel, a
- Tua'r adeg asesu, neu lle y gallwch chi ddangos bod yr amgylchiadau wedi parhau i effeithio arnoch ar adeg yr asesiad.

1.6 Fel arfer, pan fyddwch yn wynebu amgylchiadau esgusodol, ni fyddwch yn gallu cwblhau'r gwaith i'w asesu erbyn y dyddiad cau. Os byddwch wedi dechrau neu gwblhau gwaith i'w asesu, dim ond mewn rhai sefyllfaoedd arbennig y gallwch ddatgan amgylchiadau esgusodol (gweler paragraff 2.5).

1.7 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau esgusodol:

- Salwch tymor byr difrifol neu ddamwain
- Profedigaeth, hynny yw, marwolaeth perthynas neu ffrind agos, partner neu rywun arall arwyddocaol
- Amgylchiadau personol neu deuluol niweidiol sylweddol
- Dioddef trosedd ddifrifol fel ymosodiad rhywiol, gwahaniaethu, ymosodiad, bwrgleriaeth ac ati.
- 
- Problemau ariannol difrifol
- Anawsterau technegol eithriadol a brofwyd adeg asesiad ac o ganlyniad nid ydych yn gallu cwblhau'r asesiad, neu mae wedi effeithio ar eich gallu i gwblhau eich asesiad
- Tystiolaeth o gyflwr iechyd neu anabledd hirdymor sydd wedi gwaethygu neu newid, ac sydd ddim yn cael ei liniaru gan addasiad rhesymol cymeradwy

- Anabledd a nodwyd yn ddiweddar lle na fu modd cytuno ar amser addasu rhesymol ar gyfer yr asesiad
- Rydych yn ofalwr i unigolyn sy’n profi newid yn ei gyflwr ac o ganlyniad mae ei ofynion a’ch cyfrifoldebau chi fel gofalwr yn newid
- Rydych yn fyfyriwr rhan-amser ac mae ymrwymiadau proffesiynol eithriadol, annisgwyl neu anochel yn codi.

1.8 Enghreifftiau o amgylchiadau nad ydynt yn rhai esgusodol:

- Mân salwch na fyddai fel arfer yn achosi i chi gymryd amser i ffwrdd oddi wrth eich astudiaethau
- Pan na fyddwch wedi rheoli amser yn effeithiol e.e. lle nad ydych wedi caniatáu digon o amser i gwblhau'r asesiad erbyn y dyddiad cau. Dylech sicrhau bod gennych ddigon o amser i lanlwytho asesiadau i systemau'r Brifysgol
- Straen sy’n gysylltiedig ag asesiadau lle na chafwyd diagnosis o salwch ynghylch y straen hwnnw, ac nid yw wedi’i nodi yn eich Hysbysiad ynghylch Addasiad Cymorth Unigol (ISAN).
- Lle'r oedd y digwyddiad/amgylchiadau a adroddwyd arnynt yn rhagweladwy neu'n ddisgwyliedig, er enghraifft, digwyddiadau wedi'u cynllunio, megis Gwasanaeth y Rheithgor, gwasanaeth gyda’r lluoedd arfog, cystadlu/bod yn bresennol mewn digwyddiadau chwaraeon, celfyddydau, neu ddigwyddiadau allgyrsiol eraill, gwyliau, priodasau, gwyliau crefyddol wedi'u cynllunio/ digwyddiadau; neu ddigwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r teulu
- Pan nad yw’r digwyddiad/amgylchiadau’n agos at adeg yr asesiad
- Pan fo addasiadau rhesymol wedi eu rhoi ar waith ar eich cyfer eisoes
- Gwaith cyflogedig neu faterion ariannol eraill.

1.9 Yn gyffredinol, dylech allu cwblhau asesiadau heb fod angen cyflwyno datganiad o amgylchiadau esgusodol. Os byddwch yn cyflwyno datganiadau o amgylchiadau esgusodol yn aml, bydd eich ysgol mewn cysylltiad â chi i ddeall eich amgylchiadau yn well. Mae’n awgrymu y gallai fod angen cymryd camau lliniarol i gefnogi eich astudiaethau, er enghraifft, efallai y bydd angen i chi gymryd amser i ffwrdd o’ch astudiaethau (o dan y weithdrefn gohirio astudiaethau), neu asesiad anghenion gan y Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr yn unol â'r polisi addasiadau rhesymol.

1.10 Os na fyddwch yn cwblhau asesiad h.y. yn cyflwyno gwaith cwrs neu’n sefyll asesiad wedi’i amseru, oherwydd bod gennych amgylchiadau esgusodol, efallai y bydd gofyn i chi gwblhau’r asesiad yn ddiweddarach i ennill credyd, neu gyfwerth ar gyfer rhaglenni anfodiwlaidd. Mae’n bosibl y bydd oedi wrth symud ymlaen i’r flwyddyn academaidd nesaf neu ddyfarnu gradd os nad oes gennych ddigon o gredydau, neu gyfwerth ar gyfer rhaglenni anfodiwlaidd.

2. Gweithdrefn

2.1 Os byddwch yn wynebu amgylchiadau eithriadol yn y cyfnod yn union cyn, neu ar adeg asesiad, dylech gyflwyno datganiad o amgylchiadau esgusodol - mae’r ffurflen ar gael trwy hafan Mewnrwyd y Myfyrwyr. Os nad ydych yn siŵr a yw eich amgylchiadau’n eithriadol ac yn bodloni’r meini prawf ar gyfer amgylchiadau esgusodol, gallwch gael cyngor a chymorth annibynnol i gwblhau’r datganiad gan dîm Cyngor Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr.

2.2 Bydd angen gwneud datganiad ar wahân o amgylchiadau esgusodol ar gyfer pob asesiad. Mae rhagor o wybodaeth am y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich datganiad o amgylchiadau esgusodol, a oes angen i chi gyflwyno tystiolaeth, a’r camau unioni posibl, ym mharagraff 2.5 isod. Gan y dylai

eich amgylchiadau fod yn agos at amser yr asesiad, ni ddylech gyflwyno datganiad o amgylchiadau esgusodol fwy na phythefnos cyn y dyddiad a drefnwyd ar gyfer cwblhau'r asesiad.

2.3 Bydd datganiadau o amgylchiadau esgusodol yn cael eu hystyried gan y Grŵp Amgylchiadau Esgusodol neu eilydd enwebedig. Dylech ddisgwyl derbyn canlyniad y datganiad a gyflwynwyd gennych o fewn 7 diwrnod os ydych wedi datgan amgylchiadau esgusodol ar gyfer un o'r canlynol:

- Myfyriwr yn methu cyflwyno gwaith cwrs erbyn dyddiad cau cyflwyno'r gwaith
- Myfyriwr yn methu â chyflwyno traethawd hir gradd Meistr ôl-raddedig a addysgir erbyn y dyddiad cau
- 
- Myfyriwr yn methu mynd i arholiad/ cyflawni asesiad sydd â chyfyngiad amser

Os ydych wedi datgan amgylchiadau esgusodol am unrhyw reswm arall, dylech ddisgwyl derbyn y penderfyniad o fewn 28 diwrnod gan y bydd yn cael ei ystyried gan y Grŵp.

2.4 Bydd y Grŵp Amgylchiadau Esgusodol, neu eilydd enwebedig, yn penderfynu a yw'r amgylchiadau a ddisgrifiwch yn eich datganiad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer amgylchiadau esgusodol, fel y nodir ym mharagraff 1.5. Os penderfynir nad yw eich amgylchiadau yn esgusodol, caiff eich datganiad ei wrthod ac ni fydd mesur unioni ar gael.

2.5 Os bydd y Grŵp Amgylchiadau Esgusodol, neu ddirprwy enwebedig, yn penderfynu bod eich amgylchiadau'n esgusodol, bydd yn rhoi gwybod i chi am y mesur unioni y cytunwyd arno, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn y datganiad. Mae manylion y mesurau unioni a ganiateir yn y tabl isod:

| Rheswm dros y datganiad | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiad | Angen tystiolaeth gyda datganiad | Mesurau unioni posibl |
|---|---|---|---|
| Methu â chyflwyno gwaith cwrs erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno (dyddiad cau gwreiddiol neu estynedig) oherwydd amgylchiadau eithriadol | Cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs | Nac oes | • Estyniad i'r dyddiad cau o 1 wythnos (2 wythnos ar gyfer rhan-amser) oherwydd amgylchiadau eithriadol<br>• Gohirio'r gwaith cwrs tan y cyfnod asesu nesaf |
| Methu â chyflwyno traethawd hir gradd Meistr ôl-raddedig a addysgir erbyn y dyddiad cau oherwydd amgylchiadau eithriadol | Cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs | Nac oes | • Estyniad am bedair wythnos<br>• Gohirio'r traethawd hir tan y cyfnod asesu nesaf |
| Methu mynd i arholiad/ cyflawni asesiad sydd â chyfyngiad amser oherwydd amgylchiadau eithriadol | O fewn 24 awr i amser cychwyn yr arholiad | Nac oes | • Gohirio'r asesiad tan y cyfnod asesu nesaf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wedi mynd yn sâl neu faterion technegol yn ystod arholiad neu asesiad â chyfyngiad amser | Cysylltwch â'ch ysgol ar unwaith a chyflwyno datganiad cyn dyddiad cau'r ysgol | Oes | • Gohirio'r asesiad tan y cyfnod asesu nesaf |
| Asesiad wedi'i gwblhau ac roedd amgylchiadau'n ymwneud â nodwedd warchodedig (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010), cyflwr iechyd hirdymor neu gyfrifoldebau gofalu | Cyn dyddiad cau'r ysgol | Oes | Mesur unioni i'w benderfynu gan y Bwrdd Arholi |

2.5.1 Mae'r cyfnodau ymestyn a nodir uchod wedi'u gosod ac nid ydynt yn hyblyg; ni chaniateir estyniad pellach. Os nad yw estyniad yn ateb digonol bydd angen i chi gyflwyno datganiad pellach o amgylchiadau esgusodol, yn dangos pam nad oeddech yn gallu cyflwyno erbyn y dyddiad cau estynedig h.y. mae’r amgylchiadau’n rhai newydd neu’n rhai sy’n bodoli eisoes sydd wedi newid neu waethygu. Mewn amgylchiadau o'r fath yr unig fesur unioni fyddai caniatáu gohirio i'r cyfnod asesu nesaf.

2.5.2 Fel arfer, ar gyfer yr asesiadau hynny a drefnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd, y cyfnod asesu nesaf fydd y cyfnod asesu ailsefyll. Ar gyfer asesiadau sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer y cyfnod ailsefyll, y cyfnod asesu nesaf fydd pan fydd yr asesiadau wedi'u hamserlennu yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol.

2.5.3 Nid yw dyddiad cau'r Ysgol ond yn berthnasol i ddatganiadau lle mae angen tystiolaeth a byddant yn cael eu cyhoeddi gan yr Ysgol cyn yr asesiad.

2.6 Dylai tystiolaeth a gyflwynir gyda'r datganiad o amgylchiadau esgusodol fel arfer fod ar bapur pennawd, wedi'i lofnodi a'i ddyddio, gan awdurdod cydnabyddedig. Os nad yw’r dystiolaeth a gyflwynwyd ar bapur pennawd neu gan awdurdod cydnabyddedig, dylech gyflwyno’r dogfennau sydd ar gael i chi ac esbonio pam mai dyma’r dystiolaeth a gyflwynwyd. Rhaid cyflwyno tystiolaeth yn Gymraeg neu Saesneg a dylai tystiolaeth wedi’i chyfieithu gael ei dilysu gan gyfieithydd swyddogol. Mae’r mathau o dystiolaeth yn cynnwys:

- Llythyr meddygol / gan Feddyg Teulu
- Datganiad gan wasanaeth cymorth os ydynt yn eich adnabod ac rydych wedi defnyddio gwasanaethau cymorth cyn y digwyddiad; Ni fydd staff gwasanaethau cymorth yn gallu rhoi tystiolaeth i chi os nad oes ganddynt wybodaeth ymlaen llaw am eich sefyllfa gyffredinol;
- Llythyr gan drydydd parti perthnasol, e.e. gweithiwr cymdeithasol.

Os nad ydych yn siŵr pa dystiolaeth ddylai gael ei chyflwyno, gallwch gael cyngor a chymorth annibynnol gan dîm Cyngor Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr.

3. Grŵp Amgylchiadau Esgusodol

3.1 Mae’r Grŵp Amgylchiadau Esgusodol yn grŵp yn yr Ysgol a fydd yn cwrdd wyneb yn wyneb neu’n rhithiol i ystyried ceisiadau. Bydd aelodau’r Grŵp yn cael eu penodi gan Bennaeth yr Ysgol ac maent yn:

- Aelod (ond nid Cadeirydd) o’r Bwrdd Arholi (Cadeirydd y Grŵp);
- Hyd at 5 aelod o staff academaidd;
- Cynrychiolydd Anabledd/Lles;
- Aelod o staff gwasanaethau proffesiynol yr Ysgol, i gynghori’r Grŵp ac i gysylltu â Gweithrediadau’r Gofrestrfa;
- Cynrychiolydd o Ysgol arall (yn achos myfyrwyr cydanrhydedd);

3.2 Y cworwm ar gyfer cyfarfod yw’r Cadeirydd a 3 aelod. Bydd y Grŵp yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn academaidd i sicrhau bod pob cais a geir yn cael eu hystyried yn brydlon. Caniateir eilydd enwebedig i wneud penderfyniadau ar ran y Grŵp yn ymwneud â’r canlynol:

- Myfyriwr yn methu cyflwyno gwaith cwrs erbyn dyddiad cau cyflwyno'r gwaith
- Myfyriwr yn methu â chyflwyno traethawd hir gradd Meistr ôl-raddedig a addysgir erbyn y dyddiad cau
-
- Myfyriwr yn methu â mynd i arholiad/asesiad â therfyn amser i sicrhau bod myfyrwyr yn cael penderfyniadau amserol. Rhaid adrodd ar benderfyniadau'r eilydd enwebedig i'r Grŵp.

3.3 Dylai’r cynrychiolydd Anabledd/Lles gydweithio â’r Cadeirydd i sicrhau bod pob myfyriwr sy'n datgelu cyflwr yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr os yn briodol.

4. Adrodd i’r Bwrdd Arholi

4.1 Bydd y Grŵp Amgylchiadau Esgusodol yn rhoi cadarnhad i'r Bwrdd Arholi bod camau wedi'u cymryd yn unol â'r weithdrefn hon i fyfyrwyr sydd wedi cyflwyno datganiad o amgylchiadau esgusodol.

4.2 Bydd y Grŵp Amgylchiadau Esgusodol yn adrodd i'r Bwrdd Arholi:

4.2.1 myfyrwyr y caniatawyd iddynt ohirio asesiadau;

4.2.2 myfyrwyr sydd wedi cyflwyno amgylchiadau esgusodol sydd wedi'u derbyn fel rhai sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig (o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010)), cyflwr iechyd hirdymor, neu gyfrifoldebau gofalu, ac sydd wedi cwblhau'r asesiad. Bydd y Bwrdd Arholi yn ystyried y datrysiadau canlynol ac yn cadarnhau un ohonynt fel y bo'n briodol:

Os na chyflawnwyd marc pasio ar gyfer yr asesiad neu’r modiwl, caniatáu ailsefyll yr elfen o’r asesiad fel cynnig $1^{af}$ (neu $2^{il}$ neu $3^{ydd}$ os yw’r myfyriwr wedi methu eisoes) ar y cyfle nesaf.

.2 Os llwyddwyd i gyflawni’r marc pasio ar gyfer y modiwl ond bod y marc pasio ar gyfer yr elfen asesu heb ei gyflawni, cynnig cyfle i’r myfyriwr i ailsefyll yr elfen asesu fel cynnig cyntaf (neu ail neu drydydd os yw’r myfyriwr wedi methu eisoes) neu ddyfarnu credyd am y modiwl i’r myfyriwr heb asesiad pellach.

.3 Pan fo'r elfennau modiwl ac asesu wedi'u pasio, mae'n cynnig cyfle i'r myfyriwr ailsefyll yr elfen asesu fel ymgais 1af neu ddyfarnu credyd i'r myfyriwr am y modiwl heb asesiad pellach.

4.3 Os yw'r myfyriwr wedi cael credyd am fodiwl heb asesiad pellach, gall y Bwrdd Arholi anwybyddu marciau modiwl yr effeithiodd yr amgylchiadau esgusodol arnynt wrth gyfrifo'r marc terfynol fel y nodir yn y Rheoliadau Asesu.